



# Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

"Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?"

Medi 2016 — Rhifyn 1

## Yn y Rhifyn Hwn:

**Croeso i Ken Skates : Gwefan Diogelwch Ffyrdd Cymru'n cael Golwg Newydd : Cyffuriau a Gyrru : Ymgyrch Cymru gyfan Atal Yfed/Cymryd Cyffuriau a Gyrru'n : Cyffuriau a Gyrru: Camerâu ar yr M4 o gwmpas Casnewydd : Cymru Gan Beic : Gorfodi GanBwyll : Gyrru wrth Weithio : Gofal wrth Chwarae Pokemon Go : Peryglon' Cynorthwyol : Gweithrediad Edward**

## Croeso i Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith



Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru'n croesawu penodiad Ken Skates fel Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith. Ymhlith ei gyfrifoldebau y mae diogelwch ffyrdd, gan gynnwys darparu llwybrau mwy diogel i ysgolion, cludiant ar gyfer plant a phobl ifanc a rheoleiddio croesfannau cerddwyr a pharcio ar strydoedd.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda Mr Skates a'i gydweithwyr er mwyn cynnal cydweithrediad, rhyngweithio ac undod ar draws yr holl bartneriaid allweddol yng Nghymru er mwyn hyrwyddo lleihad pellach mewn anafiadau.

## Gwefan Diogelwch Ffyrdd Cymru'n cael Golwg Newydd

Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru wedi lansio gwefan ddiwygiedig ac adnewyddedig sydd wedi'i hoptimeiddio'n llawn ar gyfer technoleg symudol. [www.roadsafetywales.org.uk](http://www.roadsafetywales.org.uk)

Mae gweithwyr proffesiynol Diogelwch Ffyrdd, swyddogion llywodraeth leol a chenedlaethol, ac aelodau'r cyhoedd yn gallu gweld y newyddion diweddaraf am ddiogelwch ffyrdd a newidiadau yn y gyfraith. Mae'r wefan yn cynnwys adnoddau dwyieithog Diogelwch Ffyrdd Cymru, gan gynnwys posteri a thafenni i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth ac mewn clybiau ieuenticid a gweithleoedd. Hefyd gallwch ddod o hyd i fanylion cyrsiau ar gyfer cerddwyr, beicwyr a gyrwyr ifanc.

Mae manylion cyswllt ar gyfer personél diogelwch ffyrdd yma. Hefyd, mae manylion cyswllt personél diogelwch ffyrdd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, yn ogystal â phartneriaid eraill Diogelwch Ffyrdd Cymru, ar gael o dan y tab Cysylltiadau.

Gallwch anfon eitemau newyddion a dyddiadau calendr yn ymwneud â diogelwch ffyrdd yng Nghymru at y tîm gwe yn [communication@roadsafetywales.org.uk](mailto:communication@roadsafetywales.org.uk)



Gweler Diogelwch Ffyrdd Cymru ar Facebook a Twitter

Lluniwyd gan Ann Horton, RoSPA

02920 250 600

[ahorton@rospa.com](mailto:ahorton@rospa.com)

Nid yw Diogelwch y Ffyrdd Cymru yn gyfrifol am gynnwys safleoedd rhyngwyd allanol.

## Ymgyrch Cymru gyfan Atal Yfed/Cymryd Cyffuriau a Gyrru'n

Dros 9,000 o brofion anadl a dros 190 o brofion cyffuriau'n cael eu cynnal yn ystod Ymgyrch Cymru Gyfan

Cynhaliwyd yr ymgyrch o ddydd Gwener 10 Mehefin tan ddydd Sul 10 Gorffennaf, dan arweiniad Heddlu Dyfed-Powys. Yn ystod y cyfnod hwnnw, gweinyddwyd 9,532 prawf anadl yng Nghymru, ac roedd 313 o'r profion hynny'n bositif, neu roedd y rhai a stopiwyd wedi gwrthod neu fethu darparu sampl. Cynhaliwyd 199 prawf cyffuriau, gyda 131 yn profi'n bositif ar gyfer cyffuriau.

Mae'r drosedd o yfed alcohol neu gymryd cyffuriau a gyrru'n un o'r "5 anghueol"; y pum trosedd sy'n medru arwain at farwolaeth neu anaf difrifol ar ein ffyrdd. Y gweddill yw gyrru diofal, goryrru, peidio â gwisgo gwregys, a defnyddio ffôn symudol wrth yrru.

### Profion anadl

Yn ardal Heddlu Dyfed Powys cafodd 2751 o brofion eu cynnal ac roedd 68 yn bositif, neu roedd yr unigolyn wedi gwrthod neu wedi methu rhoi prawf.

Yn ardal Heddlu Gwent cafodd 1004 o brofion eu cynnal ac roedd 51 yn bositif, neu roedd yr unigolyn wedi gwrthod neu wedi methu rhoi prawf.

Yn ardal Heddlu De Cymru, cafodd 1819 o brofion eu cynnal ac roedd 109 yn bositif, neu roedd yr unigolyn wedi gwrthod neu wedi methu rhoi prawf.

Yn ardal Heddlu Gogledd Cymru, cafodd 3958 o brofion eu cynnal ac roedd 78 yn bositif, neu roedd yr unigolyn wedi gwrthod neu wedi methu rhoi prawf.

### Profion cyffuriau

Cynhaliodd Heddlu Dyfed-Powys 23 prawf cyffuriau, ac roedd 11 yn bositif.

Cynhaliodd Heddlu Gwent 65 prawf cyffuriau, ac roedd 39 yn bositif.

Cynhaliodd Heddlu De Cymru 51 prawf cyffuriau, ac roedd 45 yn bositif.

Cynhaliodd Heddlu Gogledd Cymru 60 prawf cyffuriau, ac roedd 36 yn bositif.

Dywedodd Pam Kelly, Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Dyfed-Powys:

"Dangosodd yr ymgyrch hon fod nifer sylweddol o yrwyr yng Nghymru'n parhau i anwybyddu'r ddeddfwriaeth bwysig hon o gwmpas yfed a gyrru."

"Os ydych chi'n yfed a gyrru, neu'n gyrru dan ddylanwad cyffuriau, mae'n bosibl y byddwch nid yn unig yn dinistrio'ch bywyd eich hun, ond bywydau eraill. Nid oes unrhyw esgus dros yfed neu gymryd cyffuriau a gyrru, a gall y canlyniadau fod yn drychinebus."

"Er mai mis oedd hyd yr ymgyrch hon, mae'r heddlu'n ceisio newid agweddau, cynyddu diogelwch ar y ffyrdd a dal troseddwr drwy gydol y flwyddyn.

Dywedodd Susan Storch, Cadeirydd Diogelwch y Ffyrdd Cymru:

"Mae ein negeseuon yn glir drwy gydol yr ymgyrch nad yw cymryd cyffuriau neu yfed a gyrru'n dderbyniol, ac ni fydd yn cael ei oddef."

"Mae'r rhai sy'n torri'r gyfraith yn hunanol yn peryglu eu hunain, ac, yn bwysicach, defnyddwyr eraill y ffyrdd. Mae cymryd cyffuriau neu yfed a gyrru'n difethaf bywydau drwy gydol y flwyddyn a byddwn ni'n parhau i weithio'n agos â'r Heddlu er mwyn atgyfnerthu'r negeseuon hyn drwy gydol y flwyddyn."



## Cyffuriau a Gyrru

Mae Partneriaid Diogelwch Ffyrdd Cymru wedi derbyn copïau'n ddiweddar o adnodd newydd sy'n rhoi cyngor ynghylch cyffuriau a gyrru.

Yng Nghymru a Lloegr, mae gyrru gyda chyffuriau cyfreithlon neu anghyfreithlon yn eich corff yn anghyfreithlon os bydd yn amharu ar eich gyrru. Mae gyrru o dan ddylanwad cyffuriau'n cario'r un cosbau â gyrru o dan ddylanwad alcohol, sef gwaharddiad rhag gyrru am leiafswm o flwyddyn, dirwy ddiderfyn, hyd at 6 mis yn y carchar a chofnod troseddol. Mae swyddogion yr heddlu yn gallu'ch stopio ar ochr y ffordd a'ch gorfodi i wneud 'asesiad maes o amhariad' neu ddefnyddio prawf clwtyn ar gyfer cyffuriau os ydynt yn amau y gallech fod yn gyrru o dan ddylanwad cyffur.

Mae cyffuriau a gafodd eu hadnabod yn flaenorol fel "anterthau cyfreithlon" wedi dinistrio llawer o fywydau ac maent wedi'u gwahardd o dan gyfraith y DU erbyn hyn.

Am gopïau o'r adnodd newydd, cysylltwch â'ch [Swyddog Diogelwch Ffyrdd](#).



## Camerâu ar yr M4 o gwmpas Casnewydd

Cyhoeddodd Ken Skates, yr Ysgrifennydd dros yr Economi a'r Seilwaith, y bydd modurwyr sy'n goryrru yn wynebu camau gorfodi os byddant yn anwybyddu'r terfynau cyflymder a ddangosir ar gantrïau uwchben yr M4 o amgylch Casnewydd. Cafodd y camerâu rhwng Cyffordd 24 yn y Coldra a Chyffordd 28 ym Mharc Tredegar eu cyflwyno yn 2011, a hyd yn hyn fe'u defnyddiwyd i gael dealltwriaeth well o ba mor effeithiol y mae Terfynau Cyflymder Amrywiadwy o ran gwella diogelwch a llif traffig cyn ac ar ôl eu gosod.



gorfodi dilynol.”

I gychwyn, bydd cyfnod o faddeuant i yrwyr sy'n gyrru'n gynt na'r terfyn, gyda chyhoeddusrwydd ynghylch nifer y modurwyr sy'n goryrru a nodir ar y rhan hon o'r draffordd. Wedyn, yn ystod yr ail gyfnod o orfodi, bydd modurwyr yn derbyn [Rhybudd o Fwriad i Erllyn](#).

Mae Chris Hume, Rheolwr GanBwyll, sef partneriaeth gorfodi camerâu cyflymder yr heddlu a'r cyngor, wedi cadarnhau na fu unrhyw erlyniadau ers sefydlu'r system.

“Hyd yn hyn, ni fu unrhyw weithredu gan yr heddlu dros yrwyr sy'n torri'r terfyn cyflymder,” dywedodd ynghylch y system gamerâu ar y rhan o'r M4 dan sylw. “Bydd y cam hwn yn helpu lleihau nifer y damweiniau ac yn achub bywydau, ac mae rheoli cyflymder traffig drwy'r rhan brysur hon o draffordd yr M4 yn hanfodol,” dywedodd.

## Cymru Gan Beic



Mae Cymru Gan Beic, sef y [wefan](#) ar gyfer beicwyr modur yng Nghymru, wedi lansio dau gyfrif Twitter newydd sbon sy'n rhoi awgrymiadau, cyngor a blogiau i feicwyr a defnyddwyr eraill y ffyrdd.

Wrth ddilyn, hoffi ac ail-drydar, gallwch gynorthwyo Cymru Gan Beic i helpu sicrhau y bydd pawb – ond beicwyr yn arbennig! – yn gallu mwynhau ffyrdd gwych yng Nghymru yn ddiogel.

Er mwyn hyrwyddo beicio modur diogel yng Nghymru ac i godi ymwybyddiaeth o'r peryglon y mae beicwyr yn eu hwynebu, bob dydd yn ystod yr haf bydd Cymru Gan Beic yn defnyddio

#100daysofmotorcycling fel hashnod wrth drydar.

Helpwch ledaenu sylwadau Cymru Gan Beic ymhellach drwy ymuno a chael eich ffrindiau a'ch teulu i wneud yr un peth.

Gallwch ddilyn Cymru Gan Beic yn Gymraeg: [@CymruGanBeic](#) ac yn Saesneg: [@WalesByBike](#).

Ymunwch â Chymru Gan Beic ar y daith hon drwy 100 diwrnod o feicio modur!

## Gorfodi GanBwyll

A oeddech chi'n gwybod bod GanBwyll yn gorfodi deddfwriaeth yn ymwneud â gwregysau diogelwch a ffonau symudol yn ogystal â goryrru? Ym mis Mehefin 2016, canfu GanBwyll 164 o droseddau methiant i wisgo gwregys diogelwch. Gwisgwch wregys ar BOB taith.

## Gyrru wrth Weithio

Gyrru yw'r gweithgaredd gwaith mwyaf peryglus y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei wneud, ac ychydig iawn o sefydliadau sy'n gweithredu heb ddefnyddio cerbydau modur.

Mae miliynau o bobl yn defnyddio'r ffyrdd er mwyn gwneud eu gwaith, ac wrth wneud hynny, maent yn wynebu, yn ogystal â chreu, risgiau. Maent yn gyrru neu'n defnyddio amrywiaeth enfawr o gerbydau, gan gynnwys ceir, faniau, lorïau, tacsis, cerbydau gwasanaethau brys, bysiau a bysiau mini, coetsis a beiciau modur er mwyn cyflawni eu dyletswyddau. Mae rhai pobl yn reidio beiciau pedal, neu'n gweithio ar droed (er enghraifft, gweithwyr post, gweithwyr cynnal a chadw, casglwyr sbwriel, gweithwyr cerbydau damweiniau, yr heddlu ac yn y blaen) ar y ffyrdd fel rhan o'u swyddi. Maent i gyd yn rhannu'r ffordd ag aelodau'r cyhoedd.

Felly, mae cyfraith y DU yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr drin gyrru, reidio neu ddefnyddio'r ffordd fel arall ar gyfer gwaith yn yr un modd ag unrhyw risg arall i iechyd a diogelwch. Rhaid iddynt gynnal asesiadau risg addas a chymryd pob "mesur rhesymol ymarferol" i reoli'r risgiau.

Mae sefydliadau'n gallu dod o hyd i wybodaeth a chanllawiau ar wefan ORSA (sef y Gynghrair Diogelwch Galwedigaethol ar y Ffyrdd). Mae'r wefan yn darparu gwybodaeth, cyngor ac adnoddau am ddim i helpu cyflogwyr i ddeall a rheoli'r risgiau a wynebir, ac a grëir, gan eu staff pan fyddant yn defnyddio'r ffyrdd fel rhan o'u gwaith. Hefyd mae'n cynnig cyngor ac adnoddau i helpu unigolion sy'n defnyddio'r ffyrdd fel rhan o'u swydd.

Mae gan sefydliadau ddyletswydd gofal i sicrhau nad yw gweithwyr, contractwyr ac is-contractwyr sy'n gyrru at ddibenion gwaith yn peryglu eu hunain a defnyddwyr eraill y ffyrdd.

Mae meincnodi'n ffordd effeithiol iawn o wella diogelwch ffyrdd mewn perthynas â gwaith, gan nodi arferion da a chreu cyfleoedd i arbed costau. Hefyd mae'n cefnogi cydymffurfio â gofynion a safonau cyfreithiol megis ISO39001.

Defnyddir yr [offeryn meincnodi](#) hirsefydlog hwn, sydd ar gael am ddim, gan dros 1,400 o sefydliadau hyd yma, ac mae wedi'i ddiwygio a'i ddiweddarau'n llawn mewn cydweithrediad â'r Gynghrair Diogelwch Galwedigaethol ar y Ffyrdd (ORSA) i gynnwys dadansoddiad bwlch manwl sy'n cynnwys 30 cwestiwn a dangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud â chanlyniadau gwrthdrawiadau.





## Gofal wrth Chwarae Pokemon Go



Mae timau Diogelwch Ffyrdd ledled Cymru wedi bod yn annog pawb i gadw'n ddiogel wrth chwarae'r gêm rithwir newydd Pokemon Go.

Daeth problemau diogelwch posibl i'r amlwg ar ôl i rai pobl ifanc gael eu gweld yn chwarae'r gêm ar ffordd ddeuol brysur yng Ngogledd Cymru.

Mae'r gêm yn annog chwaraewyr i ddal bwystfilod rhithwir a geir ar fapiau go iawn gan ddefnyddio swyddogaethau System Leoli Fyd-eang ar ffonau clyfar, ac mae wedi dod yn ffenomen fyd-eang, a'r gêm fwyaf llwyddiannus a lanswyd erioed ar lwyfannau symudol.

Yn aml, mae diffyg sylw'n achosi gwrthdrawiadau ac anafiadau ar y ffyrdd, ac anogir chwaraewyr i:

Ganolbwytio ar y peryglon o'u cwmpas, gan gymryd gofal wrth groesi'r ffordd; a pheidiwch byth â chwarae'r gêm wrth yrru.

Hefyd cyhoeddir y cyngor cyffredinol canlynol:

- Peidiwch â mynd i fannau anghysbell ar eich pen eich hun
- Peidiwch â gwneud eich hun yn agored i niwed; peidiwch â chael eich temptio i gymryd eich ffôn allan mewn manau prysur neu fannau heb oleuadau lle gallech fod yn darged i ladron
- Peidiwch â thresbasu ar eiddo preifat
- Rhieni: gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod lle mae eich plentyn bob amser

## 'Peryglon' Cynorthwyol

Mae THINK! wedi cynhyrchu fersiwn byrrach o'i [ffilm 'Helpful Hazards'](#) ac yn annog awdurdodau lleol i'w defnyddio i dynnu sylw at beryglon ffyrdd gwledig.

Fe'i defnyddiwyd gyntaf ar gyfer Ymgyrch Ffyrdd Gwledig 2015 THINK!, ac mae'r fideo'n dangos anifeiliaid a cherbydau gydag arwyddion arnynt yn annog gyrrwyr i arafu, i ragweld peryglon ac i frecio cyn cyrraedd tro yn hytrach nag ar y tro.

Hefyd mae THINK! wedi dosbarthu'r fideo i orsafoedd teledu ei ddefnyddio fel ffilm wybodaeth i'r cyhoedd.



[Lansiodd THINK! yr ymgyrch 'Ffyrdd Gwledig' gyntaf](#) gyda hysbysebion fideo a radio â'r pennawd, 'if you could see'.

[Cafodd yr ymgyrch ei hail-lansio](#) yn sgil ffigyrau a oedd yn dangos y bu farw tri pherson bob diwrnod ar gyfartaledd ar ffyrdd gwledig yn ystod 2014. Cafodd cyfanswm o 1,040 o bobl eu lladd a 9,051 eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd gwledig yn 2014, gyda thraean (348) o'r marwolaethau'n digwydd ar dro.

Er gwaethaf hyn, mewn arolwg ymhlith 2,000 o yrwyr a gynhaliwyd ar y pryd, cyfaddefodd bron i chwarter yr ymatebwyr eu bod yn brecio'n rhy hwyr ar droeon a honnodd dau o bob pump (41%) eu bod wedi gwro er mwyn osgoi rhywbeth yn y ffordd.

Mae tîm THINK! yn gweithio gyda Diogelwch Ffyrdd Prydain a'r Labordy Ymchwil Trafnidiaeth i ddatblygu ymgyrch Ffyrdd Gwledig 2016, a fydd yn rhedeg yn ystod yr hydref i ddod.

## Gweithrediad Edward



Gyda'r 'Diwrnod Heb Farwolaeth ar y Ffyrdd yn Ewrop' (Prosiect EDWARD) cyntaf yn prysur agosáu, mae TISPOL (Rhwydwaith Heddlu Traffig Ewrop) wedi [cyhoeddi fideo](#) sy'n awgrymu sut y gall defnyddwyr ffyrdd gymryd rhan yn y digwyddiad.

Cynhelir Prosiect EDWARD ar 21 Medi, ac mae TISPOL yn gobeithio y bydd pob un o'r 30 o aelod-wledydd yn cymryd rhan.

Cefnogir y digwyddiad gan Diogelwch Ffyrdd Prydain a rhanddeiliaid diogelwch ffyrdd eraill yn y DU a ledled Ewrop, a chafodd ei greu er mwyn 'ail-fywiogi'r lleihad mewn marwolaethau ac anafiadau difrifol ar ffyrdd Ewrop'.

Yn ôl y fideo, y ffordd symlaf i ddefnyddwyr ffyrdd gymryd rhan yw drwy roi diogelwch yn gyntaf gan 'leihau'r risgiau rydych yn eu cymryd wrth ddefnyddio'r ffyrdd', gan ddefnyddio'r slogan 'os bydd pawb yn gwneud ychydig, gall pawb gyflawni llawer'.

Mae'r ffilm yn gofyn i bobl chwilio am hashnod #ProjectEDWARD ar Twitter, arddangos y Tweetwall yn eu gweithle a gwirio a yw eu tîm diogelwch ffyrdd lleol wedi trefnu digwyddiad neu ddigwyddiadau.

Mae TISPOL yn gobeithio defnyddio'r digwyddiad i annog gyrwyr i feddwl am eu hymddygiad a'u hagwedd, a ddisgrifir fel y rhwystr mwyaf rhag cyrraedd targedau lleihau anafiadau.

Gofynnir i ddefnyddwyr ffyrdd 'wneud yr addewid', gan addo: 'gyrru ar gyflymder sy'n gyfreithlon a diogel', 'cymryd gofal arbennig wrth yrru ger ysgolion', 'peidio byth â gyrru ar ôl yfed alcohol neu gymryd cyffuriau/meddyginiaethau', 'gwisgo fy ngwregys bob amser' a 'peidio â defnyddio fy ffôn symudol wrth yrru'.

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Honor Byford, cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Prydain, alwad ar i weithwyr proffesiynol diogelwch ffyrdd ddangos eu cefnogaeth i Brosiect EDWARD drwy lofnodi'r addewid.

Ar y pryd, dywedodd: "Mae Prosiect EDWARD yn ymwneud â gosod targed o ddim un marwolaeth ar y ffyrdd; mae targedau'n hanfodol o ran helpu atgyfnerthu ymdrechion pobl sydd eisiau gwella diogelwch ar ffyrdd Ewrop.

"Credwn, wrth weithio gyda'n gilydd, gallwn wneud cyfraniad sylweddol tuag at ostyngiadau sylweddol a pharhaus pellach mewn marwolaethau ac anafiadau difrifol ar y ffyrdd."

Gwahoddir personél Diogelwch Ffyrdd ledled Cymru i ymuno â Diogelwch Ffyrdd Cymru a [llofnodi'r addewid](#).